Coleg Gwent



# DYSGWR
# POLISI DERBYN

# POLISI DERBYN

| | |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:** | **Cwblhawyd 30/05/23** |
| **Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg:** | **Cwblhawyd 30/05/23** |
| **Haen:** | **3 – Uwch Dîm Corfforaethol** |
| **Cymeradwywyd gan:** | **Uwch Dîm Corfforaethol** |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | **07 Mehefin 2023** |
| **Awdur:** | **Cyfarwyddwr<br>(Ansawdd a Phrofiad y Dysgwr)** |
| **Dyddiad Adolygu:** | **Ebrill 2025** |
| **Cyhoeddwyd ar:** | **Mewnrwyd<br>Porth y Dysgwyr** |

**COLEG GWENT**

**POLISI DERBYN**

## 1.0 Datganiad Polisi

Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo i broses dderbyn deg ac agored sy'n ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei rinweddau unigol. Er mwyn cyflawni hyn, gallai'r broses dderbyn gael ei gwahaniaethu er mwyn ystyried anghenion dysgwyr a natur y rhaglen astudio. Egwyddor sylfaenol y Polisi Derbyn yw bod pob dysgwr unigol yn cael ei baru'n briodol â rhaglen astudio addas.

## 2.0 Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cais am addysg lawn amser, rhan amser, seiliedig ar waith ac addysg uwch. Mae hyn yn cynnwys yr holl ffrydiau ariannu. (Nodyn: Mae'r polisi hwn yn cwmpasu cyrsiau AU proffesiynol yn unig. Mae gennym ni bolisi ar wahân ar gyfer Derbyniadau AU ar gyfer llawn amser ac UCAS).

## 3.0 Trosolwg o'r Cais

3.1 Bydd Coleg Gwent yn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch ei gyrsiau ar gael drwy sianeli cyfryngau amrywiol, gan gynnwys ei wefan a digwyddiadau agored.

3.2 Bydd ceisiadau ar gyfer cyrsiau llawn amser yn cael eu derbyn o 01 Tachwedd tan hanner tymor mis Hydref y flwyddyn ganlynol.

3.3 Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i wneud cais ar-lein yn https://www.coleggwent.ac.uk/cy ond mae ffurflenni cais papur ar gael ar gais. Dylid anfon ceisiadau papur wedi'u cwblhau at Wasanaethau Dysgwyr y campws.

3.4 Dim ond un cais ar gyfer bob person sy'n cael ei brosesu ar unrhyw un adeg. Os bydd ymgeisydd yn cyflwyno mwy nag un cais, bydd y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cysylltu â'r ymgeisydd i bennu pa gwrs yr hoffai iddo gael ei brosesu.

3.5 Mae'r coleg wedi ymrwymo i drin ei holl ddysgwyr yn deg ac mae'n croesawu ceisiadau gan ystod eang o unigolion gan gynnwys y rhai sydd ag euogfarnau troseddol. Ni fydd cael euogfarn droseddol o reidrwydd yn atal ymgeiswyr rhag astudio yn Coleg Gwent, ond gallai methu â datgelu euogfarn droseddol heb ei disbyddu arwain at dynnu dysgwyr yn ôl o'r broses ymgeisio neu o'u cwrs. Bydd gofyn i ymgeisydd sydd ag euogfarnau troseddol heb eu disbyddu lenwi Ffurflen Datgelu cyn cael cyfweliad cwrs.

3.6 Rhaid i unrhyw gais sy'n cael ei dderbyn gan unigolyn sydd ar hyn o bryd yn cwblhau dedfryd o garchar gael ei gyfeirio at y Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad y Dysgwr) i gael cytundeb gan NOMS Cymru. Heb y cytundeb hwn ni fydd y Coleg yn cael ei ariannu ar gyfer unrhyw leoedd sy'n cael eu mynychu gan garcharorion.

3.7 Mae'r Coleg yn ystyried ceisiadau gan unigolion sy'n datgan anabledd a/neu nam a/neu gyflwr ar yr un meini prawf â phob ymgeisydd arall. Wrth benderfynu a ddylid derbyn cais (neu ymrestru unigolyn ar unrhyw gwrs) efallai y bydd angen ystyried unrhyw bryderon iechyd a diogelwch o'r pwys mwyaf, rhwystrau sy'n ymwneud â gofynion proffesiynol neu allu'r Coleg i gwneud addasiadau rhesymol. Gellir gwahodd ymgeiswyr i fynychu Cyfarfod Derbyn lle ellir mynd i'r afael ag unrhyw ofynion neu bryderon ychwanegol mewn modd sensitif ac adeiladol.

## 4.0 Prosesu Ceisiadau

4.1 Mae ceisiadau'n cael eu creu gan ddefnyddio system o'r enw Prospect. Mae ymgeiswyr yn creu enw defnyddiwr a chyfrinair yn Prospect i wneud cais yn uniongyrchol i EBS

4.2 Mae'r broses Derbyn yn cynnwys proses 'Dad-ddyblygu ac Uno' i atal dyblygu cyfrifon

4.2 Mae pob ymgeisydd (ac eithrio ILS, ESOL) yn cael eu hasesu ar fodloni meini prawf mynediad y cwrs, yn seiliedig ar y cymwysterau/graddau sy'n cael eu nodi yn ei gais — gweler adran 5 am fanylion

4.3 Os nad oes digon o wybodaeth wedi'i darparu i benderfynu ar addasrwydd cwrs/lefel, bydd y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cysylltu â'r ymgeisydd

4.4 Os yw'r ymgeisydd yn bodloni meini prawf mynediad y cwrs, bydd cynnig amodol yn cael ei ychwanegu

## 5.0 Gofynion Mynediad

5.1 Bydd y gofynion mynediad yn amrywio rhwng rhaglenni astudio. Fodd bynnag, bydd gan bob cwrs ddatganiad clir ynghylch gofynion mynediad. Mae'r rhain ar gael ar daflenni gwybodaeth y cwrs ar y wefan.

5.2 Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i ofyn am eirdaon ar gyfer unrhyw ddarpar ddysgwr.

5.3 Ymgeiswyr o dan 16 mlwydd oed. Ar gyfer dysgwyr o dan oedran ysgol gorfodol mae gan y coleg bolisi derbyn ar wahân. Mae hwn ar gael ar gais.

5.4 Ymgeiswyr o oedran gadael ysgol. Bydd gofyn i ddysgwyr ddangos tystiolaeth o ofynion mynediad y cwrs cyn cofrestru.

5.5 Ymgeiswyr hŷn sydd ag anghenion/dewisiadau cymhleth. Mae'r Coleg yn croesawu ceisiadau gan ddysgwyr aeddfed ac mae pob ymgeisydd yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun.

5.6 Ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni Mynediad. Os nad yw ymgeisydd yn bodloni'r proffil cymhwyster gofynnol, bydd yn cael ei wahodd i mewn am Wybodaeth, Cyngor ac Arweiniad gyda'r tîm Mynediad

5.7 Ceisiadau ar gyfer cyrsiau AU. Os nad yw ymgeisydd ar gyfer cwrs AU yn bodloni'r proffil cymhwyster gofynnol, byddant yn cael eu gwahodd i mewn am Wybodaeth, Cyngor ac Arweiniad gyda thîm y cwrs.

5.8 Polisi Datgelu Euogfarnau Troseddol Heb eu Disbyddu. Ni fydd yn ofynnol i unrhyw ymgeisydd ddatgelu unrhyw euogfarn droseddol sydd wedi'i disbyddu, ac eithrio pan fydd yn ceisio mynediad i alwedigaethau eithriedig dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr Ifanc (1974). Bydd gofyn i ymgeisydd sydd ag euogfarnau heb eu disbyddu lenwi Ffurflen Datgelu cyn ei gyfweliad cwrs.

5.9 Ymgeiswyr rhyngwladol. Mae Coleg Gwent yn croesawu ceisiadau tramor. Bydd angen i bob cais Rhyngwladol gwblhau asesiad iaith a ffioedd (os yw'n briodol) ac mewn rhai achosion cyfweliad cyn cael cynnig.

5.10 Dysgwyr sydd wedi'u gwahardd. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i ymgeisydd sydd wedi cael ei wahardd o'r blaen o'r sefydliad hwn neu unrhyw sefydliad addysgol arall. Bydd angen i ymgeiswyr sydd wedi'u gwahardd o'r blaen

gael sgwrs gyda Phennaeth Gwasanaethau Dysgwyr y campws, cyn iddyn nhw ail-ymuno â'r Coleg.

5.11 Bydd y Coleg yn mynnu bod cofrestriad a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu gwneud gan ymgeiswyr pan maen nhw wedi cofrestru ar gyrsiau sy'n arwain at yrfaoedd lle mae hyn yn ofynnol neu lle mae hyn yn ofyniad gan ddarparwyr profiad gwaith. Ar gyfer pob cwrs gall euogfarnau penodol arwain at wrthod ymrestru.

5.12 Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i ofyn i ymgeisydd sydd wedi mynychu'r Coleg o'r blaen ond a fethodd wneud digon o ymdrech tuag at gwblhau ei gwrs a/neu raglen yn llwyddiannus i fynychu cyfarfod Derbyn i sicrhau bod y cwrs newydd mae'n gwneud cais amdano, yn iawn i'r ymgeisydd er mwyn ceisio sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

5.13 Mae'r Coleg yn cydnabod bod ganddo ddyletswydd gofal tuag at ddysgwyr a staff ac felly mae'n cadw'r hawl i beidio â derbyn ymgeisydd lle mae tystiolaeth y gallai fod yn fygythiad neu'n berygl i eraill.

5.14 Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i beidio â derbyn ymgeisydd sydd â dyledion nad yw wedi'u talu gyda'r Coleg

5.15 Bydd y Coleg yn sicrhau bod ffioedd yn cael eu talu, lle mae'r rhain yn berthnasol

## 6.0 Cynigion

6.1 Gall fod amodau ar gynigion e.e. cael canlyniadau arholiad penodol. Gall cynigion hefyd fod yn ddiamod.

6.2 Mae'n anochel y bydd rhai cyrsiau'n dod yn llawn ac oherwydd cyfyngiadau adnoddau, gall fod yn anodd cynnig cyrsiau ychwanegol. Mewn achosion o'r fath, mae'r Coleg yn gweithio ar sail '*y cyntaf i'r felin'*. Gall ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddiannus gael cynnig campws arall, cyrsiau arall, eu hychwanegu at restrau aros neu gael eu cynghori am sefydliadau eraill sy'n cynnig cyrsiau tebyg.

6.3 Mae'n anochel y bydd rhai cyrsiau'n methu â recriwtio niferoedd digonol o ddysgwyr (*gan gynnwys ail a thrydedd flwyddyn y cyrsiau*) ac oherwydd cyfyngiadau adnoddau, efallai na fydd y cyrsiau hyn yn dechrau. Yn yr achosion hyn, bydd ymgeiswyr yn cael cynnig campws arall, cyrsiau eraill, eu hychwanegu at restrau aros neu gael eu cynghori am sefydliadau eraill sy'n cynnig cyrsiau tebyg.

## 7.0 Ymrestru

7.1 Er mwyn cael ei ystyried fel 'wedi ymrestru', rhaid i ymgeisydd naill ai:

- Llenwi a llofnodi ffurflen gofrestru'r coleg a sicrhau bod yr un peth wedi'i lofnodi gan aelod o staff
- Cwblhau 'Paratoi ar gyfer y Coleg' gan ddefnyddio meddalwedd Prospect ar-lein y Coleg a chadarnhau ei gyflwyniad ar y sgrin ganiatâd.

7.2 Rhaid i bob ymgeisydd ymrwymo i dalu'r ffi briodol, yn unol â'r polisi ffioedd naill ai wrth gofrestru ar y campws, dros y ffôn neu ar-lein drwy Prospect. Mae'n ofynnol hefyd i ymgeiswyr lofnodi ISLA electronig sy'n cael ei gadw yn EBS i gadarnhau bod manylion eu cwrs yn gywir. Mae hwn yn gam cytundebol pwysig yn y broses dderbyn

## 8.0 Ffioedd a Hepgorion

8.1 Mae'r Coleg yn adolygu ac yn cyhoeddi ei ffioedd a'i hepgorion bob blwyddyn. Mae'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio Ariannol) yn gyfrifol am gynnal adolygiad blynyddol i lywio'r broses hon. Bydd ceisiadau unigol am hepgor ffioedd ar sail amgylchiadau arbennig yn cael eu cyfeirio at y Partner Busnes Cyllid i gael penderfyniad yn ôl disgresiwn.

8.2 Bydd y ffioedd sy'n ddyledus yn cael eu casglu yn unol â Pholisi Ffioedd y Coleg ac ni ellir eu had-dalu.

8.3 Am ragor o wybodaeth ynghylch Ffioedd a Hepgoriadau cyfeiriwch at y Polisi Ffioedd ar gyfer y flwyddyn astudio berthnasol.

## 9.0 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

9.1 Mae'r Coleg wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol yn cael mynediad cyfartal i'n gwasanaethau. Bydd y Coleg yn monitro ei ymrestriadau er mwyn gwerthuso'r ymrwymiad hwn ac os oes angen, gwneud newidiadau priodol i'r polisi hwn. Bydd y Polisi Derbyn hefyd yn cael ei adolygu yng ngoleuni unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n ymdrin â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.

## 10.0 Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

10.1 Bydd gwybodaeth sy'n cael ei chasglu yn y prosesau derbyn a chofrestru yn glynu at ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â diogelu GDPR. Yn benodol, bydd y canlynol yn berthnasol:

- Bydd cyn lleied o ddata ag sydd ei angen yn cael ei geisio
- Bydd data'n cael ei gadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol ac yn cael ei ddefnyddio at y diben dros ei gasglu yn unig
- Bydd data'n cael ei gadw cyhyd ag y bo angen, h.y. yn unol â gofynion statudol ond dim llai na 6 blynedd yn dilyn cwblhau'r cwrs.
- Bydd gofyn i ddysgwyr gydsynio i brosesu eu Data dan y Ddeddf GDPR, pan fyddant yn cwblhau eu ffurflenni cais ac ymrestru.

## 11.0 Cyfarfodydd Derbyn

11.1 Mewn rhai achosion efallai y bydd angen cael Cyfarfod Derbyn i ystyried unrhyw gais a allai beri pryder. Gall y rhain gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Mae dysgwr wedi ennill cymhwyster, e.e. Diploma Cyntaf ac yn dymuno symud ymlaen i'r Diploma Cenedlaethol. Fodd bynnag, pan fydd dysgwr wedi cyrraedd ei botensial yn y Diploma Cyntaf (meini prawf llwyddo yn unig pan fydd angen proffil teilyngdod ar gyfer dilyniant) a byddai derbyn i'r Diploma Cenedlaethol yn golygu y byddai'r dysgwr yn debygol o fethu.
- Pan fydd ymgeisydd i gwrs sy'n gofyn am leoliad gwaith neu weithgaredd allanol arall yn peri pryder yn seiliedig ar ei amgylchiadau meddygol a/neu ymddygiadol ac a allai effeithio ar ganlyniad llwyddiannus y gweithgaredd allanol hwnnw.
- Lle gallai derbyn ymgeisydd roi dysgwyr a/neu staff mewn perygl, e.e. lle mae gan yr ymgeisydd hanes o drais neu unrhyw fath arall o gam-drin tuag at eraill.
- Pan fydd dysgwr yn datgelu euogfarn droseddol heb ei disbyddu sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y cwrs mae'n dymuno ymrestru arno, e.e. gallai euogfarn o natur rywiol effeithio ar ymgeisydd sy'n dymuno cofrestru ar gwrs gofal, lle byddai ganddo fynediad at

blant neu oedolion agored i niwed. Wrth ddelio ag euogfarn droseddol ymgeisydd sydd heb ei disbyddu, dylid cyfeirio at y **Polisi Datgelu Euogfarnau Heb Eu Disbyddu,** sy'n amlinellu gweithdrefn ar wahân ar gyfer sefydlu Polisi Derbyn i'r hyn a amlinellir isod.

11.2 Bydd aelodaeth y Cyfarfod Derbyn fel arfer yn cynnwys yr aelodau staff canlynol, ond gall hyn amrywio yn dibynnu ar natur y pryder:

- Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr y Campws (Cadeirydd)
- Pennaeth yr Ysgol berthnasol (os yw'n briodol)

11.3 Dylai'r cyfarfod ystyried unrhyw dystiolaeth gan dyst a/neu ddogfennaeth maen nhw'n teimlo allai ychwanegu gwerth at eu hystyriaethau. Yn ogystal, efallai y bydd angen ystyried y materion canlynol, naill ai drwy'r ddogfennaeth sy'n cael ei darparu neu drwy gyfweliad â'r dysgwr, os oes angen:

- Difrifoldeb yr achos am bryder/trosedd a'i berthnasedd i'r Coleg a/neu'r cwrs
- Amser ers i'r achos pryder/trosedd ddigwydd
- Gwybodaeth berthnasol ynghylch yr amgylchiadau a arweiniodd at yr hyn wnaeth achosi pryder/cyflawni trosedd, e.e. dylanwad anawsterau domestig neu ariannol
- P'un a oedd y drosedd yn un untro, neu'n rhan o restr o droseddau
- P'un a yw amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid ers yr hyn wnaeth achosi pryder/ers cyflawni trosedd, gan wneud aildroseddu yn llai tebygol
- Y wlad lle cyflawnwyd y drosedd
- P'un a yw'r drosedd wedi bod yn destun gwahaniaethu gan y Senedd
- I ba raddau mae'r dysgwr wedi mynegi edifeirwch neu fel arall a'i gymhelliant i newid

11.4 Dylid cadw unrhyw wybodaeth sy'n codi o'r cyfarfod, e.e. asesiad risg yn gyfrinachol a dim ond os oes rheswm penodol dros wneud hynny y dylid ei datgelu.

11.5 Pan fydd y cyfarfod wedi dod i benderfyniad, dylai hysbysu'r ymgeisydd cyn pen tri diwrnod gwaith. Os mai'r penderfyniad yw gwrthod ymrestru ar y cwrs, rhaid rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y rhesymau dros wrthod a lle bynnag y bo'n bosibl, cynghori'r ymgeisydd am ddarparwyr eraill sy'n cynnig yr un cyrsiau neu gyrsiau tebyg.

## 12.0 Apeliadau

12.1 Dylai dysgwyr sy'n dymuno apelio yn erbyn unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn ystod y broses dderbyn neu gofrestru gysylltu â'r Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad y Dysgwr). Dylid nodi natur yr apêl yn ysgrifenedig, gan esbonio'n glir y seiliau dros yr apêl.

## 13.0 Monitro a Gwerthuso

13.1 Bydd y Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad y Dysgwr) yn adolygu perfformiad yn erbyn y polisi hwn yn flynyddol ac o ganlyniad gall ddiwygio'r ddogfen bolisi hon, pryd bynnag y bydd o'r farn bod hynny'n briodol. Gall y diwygiadau hyn gynnwys yr angen i newid amodau a nodir yn y Polisi hwn yn ystod blwyddyn academaidd, h.y. ar ôl i ddysgwyr ddechrau ar eu cyrsiau a chyn i'r un dysgwyr gwblhau eu cyrsiau.